# Teithiau Penllyn | Go Bala

## Taith Betsi Cadwaladr | Betsi Cadwaladr Trail

Cymdeithas Twristiaeth y Bala a Phenllyn | Bala & Penllyn Tourism Association



Taith Treftadaeth | Heritage Walk

### Taith Betsi Cadwaladr

Taith gylch trwy'r dref, tros dir amaeth a gweundir i Lanycil gan ddychwelyd heibio'r llyn a thrwy'r dref, llawer o gamfeydd. Mae'r daith yn mynd heibio mannau cysylltiedig â Betsi Cadwaladr. Mae golygfeydd o'r llyn, mynyddoedd a'r "ogofau". Mae rhan o'r daith dros dir amaeth a ffyrdd prysur a rhaid goruchwylio plant. Mae opsiwn i arallgyfeirio i Moel y Garnedd (340m), sy'n ychwanegu 1 awr i'r daith.

Mae Cymdeithas Dwristiaid y Bala a Phenllyn wedi gwirio'r wybodaeth roddir yn y daflen hon ond gall rhai newidiadau ddigwydd. Dylech fod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun, cymerwch sylw o rybuddion, dilynwch y Cod Cefn Gwlad a gweler gwefan www.GoBala.org (Gwybodaeth/Diogelwch)

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth i Dwristiaid: | www.VisitBala.org neu www.ymweldageryri.info |
| Gwybodaeth am Deithiau: | www.GoBala.org |

## CYNLLUNIWCH EICH TAITH

| | |
|---|---|
| Pellter | 7½ km (5 milltir) |
| Dringo | 180 m (600 tr) |
| Amser | 2 - 2½ awr |
| Map | OS OL23 or OL18 |
| Tirwedd | Llwybrau, ffyrdd prysur, tir ffermio, gweundir, llawer o gamfeydd. |
| Dechrau a Gorffen | Maes Parcio Y Grin SH 929 361 |
| Parcio | Y Grin (Talu ac arddangos) |
| Toiledau | Y Grin, Canolfan Hamdden ac yn y Bala |
| Bwyd a diod | Yn y Bala / Canolfan Hamdden |
| Cludiant Cyhoeddus | www.GoBala.org (Gwybodaeth/Cludiant Cyhoeddus) |
| Pwysig | Gwyliwch lif dwr cyflym a llethrau llithrig ac wrth groesi / dilyn ffyrdd prysur. Dylid arolygu plant |

www.GoBala.org

## Y Daith

1. DECHRAU Ewch i'r briffordd (A494).
2. Ar y groesffordd dilynwch yr A4212 (I Trawsfynydd) a mynd heibio Eglwys Crist a'r ysgol uwchradd, Ysgol y Berwyn ar eich llaw chwith.
3. Gyferbyn a Coleg y Bala croeswch A4212 ac ewch i'r chwith i fyny'r ffordd lle mae Bodiwan ar y gornel.
4. Trowch i'r dde ar i fyny wrth gyrraedd y stad dai.
5. Mae tŷ Penrhiw ym mhen pellaf y ffordd hon A.
6. Dilynwch y llwybr troed a farciwyd gyda'r gwrych. Dilynwch arwyddion y llwybr tros gae at y gamfa yn y gornel.
7. Croeswch y gamfa i Graig y Fron B a'r "ogofau", hen chwarel gerrig adeiladu y dref, yna dilynwch lwybr gan gadw'r ogofau ar eich llaw chwith. Ewch ymlaen hyd y llwybr a farciwyd – mae olion wal a hen wrych ar y chwith.
8. Ewch heibio olion hen adeilad, trwy lidiart, yna i'r dde i lawr y llethr a dilyn ffens/gwrych ar y dde. Wrth y llidiart/camfa a farciwyd ewch ymlaen heibio tŷ (Hendre-ddu) ar eich llaw dde i'r lon fach.
9. Ewch i'r dde hyd y lon fach am 1km. Bron cyn yr 2il grid gwartheg ewch i'r chwith hyd lwybr ceffyl trwy goed ac allan i'r waen agored. Mae Moel Emoel i'r gogledd-ddwyrain; i'r de-ddwyrain mae mynyddoedd y Berwyn; mae'r Clwb Golff o'ch blaen ac mae'r Aran i'r de-orllewin.
10. Tir mynediad agored sydd yma (Gwastadros), ac mae rhyddid ichwi grwydro ble mynnoch neu fynd i gopa Moel y Garnedd (360m) o'r lle mae golygfeydd ardderchog (bydd yr arallgyfeiriad hwn yn ychwanegu 3km, dringo 100m a chymryd awr o amser).
11. Dychwelwch i'r llwybr ceffyl ac ewch i'r dde.
12. Gadewch y waen trwy'r llidiart i ffordd fferm Penlan. Anelwch am y trac sy'n mynd i lawr oddiwrth y tŷ fferm. (Penlan).
13. Ewch trwy fuarth Penlan i lawr i'r lon fach a farciwyd fel llwybr. Ewch trwy'r llidiart nesaf a dilyn y ffens ar y chwith am ryw 75m yna, dal i'r dde trwy adwy a dilyn hen wal/gwrych ar eich llaw dde. Ewch i lawr trwy lidiart a dilyn y llwybr efo ffens/coed ar y llaw dde – bydd y llwybr hwn yn debygol o fod yn wlyb! I osgoi'r rhan wlyb cadwch i'r llethr chwith trwy lwyni eithin yna i'r dde ac i lawr at y ffens. Wrth bolyn marcio ewch i lawr i'r dde ac i lawr y trac.
14. Ewch i lawr y trac.
15. Ger tŷ Fferm Fron Feuno cadwch ar y trac a mynd tu ôl i'r adeiladau allanol. Mae 3 llidiart lydan wrth y man lle mae'r traciau'n ymuno. Ewch ymlaen ac ar ôl 50m ewch trwy lidiart fechan i'r coed. Ewch ymlaen gyda'r ffens ar eich llaw dde yna igam-ogamu i'r chwith i lawr y llethr. Yn fuan, cyn dod at lidiart lydan, ewch i'r dde i lawr llwybr serth drwy'r coed. Cadwch i'r dde wrth y ffens i gyrraedd y gornel isaf yna gadewch y coed trwy lidiart gul i ffordd Fferm Fron Feuno. Ewch i'r chwith i lawr y ffordd i'r briffordd A494.
16. Croeswch yr A494 i'r llwybr cerdded / beiciau. Mae hen Eglwys Llanycil gerllaw C.
17. Dilynwch yr A494 i'r Bala. Wrth Loch Café, ewch i'r dde hyd y llwybr ar ben y clawdd llif am 500m.
18. Dilynwch yr arwydd i'r llwybr ar y chwith tros y cae hyd y llwybr wedi ei ffensio.
19. Dowch allan gerllaw maes parcio /toiledau Plase. Ewch i lawr heibio'r maes parcio hyd heol Plase at y groesffordd.
20. I'r dde o'r groesffordd ymhen ychydig mae sgwâr Capel Tegid a chofeb Thomas Charles D.
21. Ewch yn ôl hyd Heol Tegid i'r Stryd Fawr. Gyferbyn mae Gwesty'r Llew Gwyn (White Lion Royal Hotel) E.
22. Ewch i'r dde i lawr y Stryd Fawr heibio Plas-yn-Dre F ar y llaw chwith ac yn ôl i faes parcio Y Grin lle bydd diwedd y daith. GORFFEN

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government
GoBala Maps and Trails in and around Bala
Teithiau Penllyn Mapiau a Theithiau yn ardal y Bala



DECHRAU / GORFFEN
HEOL FFRYDAN / FFRYDAN ROAD
A4212
A494
B4391
CANOLFAN CWYAIN CENTRE
COLEG Y BALA
Ogofau Craig Y Fron / The Caves
COEDLYS
HENDRE-DDU
LLWYN DERW
CAE CHWARAE/ PLAYING FIELDS
YSGOL Y BERWYN SCHOOL
LLYFRGELL/LIBRARY
RHYNGRWYD/INTERNET
CLWB PÊL DROED/ FOOTBALL CLUB
MARCHNAD ANIFEILIAID/ LIVESTOCK MARKET
CLWB CRICED/ CRICKET CLUB
CAE CHWARAE/ PLAY AREA
CLWB SNWCER/ SNOOKER CLUB
BOWLIO AR LAWNT/ CROWN GREEN BOWLS
MILFEDDYG/VET
GORSAF TÂN/ FIRE STATION
Tomen Y Bala
MEDDYGFA/MEDICAL CENTRE
CLWB GOLFF Y BALA/ BALA GOLF CLUB
Ffynnon Beuno
HEDDLU/POLICE
AMBIWLANS/ AMBULANCE
SINEMA/ CINEMA
Canolfan Y Plase/ Plase Heritage Centre
STRYD FAWR / HIGH STREET
BRYN-Y-GROES
ERYL-ARAN
HEOL PENSARN
CANOLFAN HAMDDEN PENLLYN/ PENLLYN LEISURE CENTRE
WARDEN Y LLYN/ LAKE WARDEN
PUBLIC SLIPWAY
STAD DDIWYDIANNOL/ INDUSTRIAL ESTATE
CLWB RYGBI/ RUGBY CLUB
Llwybr aml ddefnydd/ All Ability Trail
PENLAN
CARAVAN PARK
FRONFEUNO FARM
ABER GWENWYN - FEIRCH
Dolgellau & Barmouth
LLYN TEGID/BALA LAKE
CLWB HWYLIO'R/ BALA SAILING CLUB
Llangower (B4
ABERCELYN
LLANYCIL CHURCH
LLANYCIL
Parc
N
W
E
SCALE
0
50
100
Metres
Dŵr/Afon Water / River
Coedwig Woodland
Priffordd A Road (trunk)
Priffordd A Road
Ffordd B B Road
Ffyrdd Eraill Other Roads
Rheilffordd Railway
Llwybr Footpath
Llwybr aml ddefnydd All Ability Footpath
Parcio Parking
Parcio Ceir a Coets Car & Coach parking
Toiled Toilet
Cawod Shower
Canolfan Croeso Tourist Information Centre
Eglwys / Capel Church / Chapel
Safle Bws Bus Stop
Swydda Bost Post Office
Safle Treftadaeth Heritage Site
Fferyllfa Chemist
Canolfan Feddygol Medical Centre
Banc Bank
Canwio a Cheufadu Canoeing / Kayaking
Pysgota Fishing
Hwylio Sailing
Ailgylchu Recycling
Di-wifr Wireless
Gorsaf Rheilffordd Railway Station
Golff Golf

## Hanes Betsi Cadwaladr

Lleolwyd tref y Bala yng nghanol ardal hyfryd Penllyn gerllaw Llyn Tegid, y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru. Ddwy ganrif yn ol roedd yr ardal yn enwog am ei hosanau gwlan a'i chyfarfodydd crefyddol. Un o'r pregethwyr lleol oedd Dafydd Cadwaladr, tad Betsi. Yn ystod ei hoes teithiodd hi i lawer rhan o'r byd a daeth i enwogrwydd am ei gwaith fel nyrs yn Balaclava yn ystod Rhyfel y Crimea.

Ganwyd Betsi yn 1879 ym Mhenrhiw, tyddyn ar gyrion y Bala. Arweiniodd natur annibynnol, anturus Betsi hi i adael cartref yn ifanc. Cyflogwyd hi fel morwyn i fasnachwr cefnog yn Lerpwl a theithiodd gyda hwy yng ngwledydd Prydain ac yn Ewrop. Arhosodd yn ddi-briod er iddi wneud addewid i briodi Capten Harris, cyfaill i'w thad, ond bu ef farw ar y mor pan ddrylliwyd ei long "Persevereance" ar greigiau.

Yn ddiweddarach aeth i Lundain ac, ar ol rhai blynyddoedd yn gweini, daeth yn forwyn i wraig capten llong a chafodd deithio gyda hwy i India'r Gorllewin. Teithiodd hefyd i Cape Town, Singapore, Calcutta, Sydney a Rio de Janeiro. Mabwysiadodd yr enw Elizabeth Davies oherwydd anhawster ei chyflogwyr i ynganu Cadwaladr.

Wedi cyfnod yn ol ym Mhrydain clywodd am ryfel y Crimea a'r galw am nyrsus i ofalu am y clwyfedigion. Er ei bod yn ei chwedegau ymunodd a'r ail fintai o nyrsus gynullwyd gan Florence Nightingale a hwylio allan i ysbyty Scutari. Yn groes i gyfarwyddyd Florence Nightingale mynnodd fynd yn nes at faes y brwydro i Balaclava. Yno roedd cyflwr gofal ac amodau byw y milwyr clwyfedig yn ofnadwy, cynrhon yn eu clwyfau a mwy yn marw o haint na'u clwyfau. Rhododd Betsi drefn ar y lle a chyfarwyddiadau i wella safonau glendid a gofal. Gofalai am y gegin a'r coginio ond, hefyd, gofalai am gleifion yn ystod y nos. Effeithiodd yr oriau maith ar ei hiechyd. Yn dilyn damwain i'w choes dychwelodd i Lundain ac yno y bu farw yn wraig dlawd ar 17 Gorffennaf, 1860.

Heddiw anrhydeddwyd ei henw gan "Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr" y gyfundrefn iechyd fwyaf yng Nghymru.




A Penrhiw: Cartref genedigol Betsi Cadwaladr. Ar fur y Tŷ mae plac coffa osodwyd gan Gymdeithas Nyrsio Cymru yn 1970.




Ffermwr oedd Dafydd Cadwaladr, tad Betsi, yn enedigol o ardal Llangwm. Dysgodd ei hun i ddarllen trwy adnabod llythrennau nod-gwlan defaid. Prododd Judith, merch Humphrey Erasmus, a chawsant 16 o blant. Bu farw ei wraig pan oedd Betsi ond pum mlwydd oed.

B Craig y Fron: Pan gwerylai Betsi a'i chwaer hynaf ciliai i guddfan greigiog dan y graig i freuddwydio am wledydd pell. Yma roedd chwarel gerrig adeiladu Y Bala ac mae'r ogofau eang i'w gweld hyd heddiw.



C Eglwys Sant Beuno, Llanycil. Yma, yn eglwys y plwy, bedyddiwyd Betsi ac yma, tu ôl i'r eglwys, mae bedd ei rhieni a chofeb ei thad, Dafydd Cadwaladr, "Pregethwr Llafurus." Roedd o'n un o Gyghorwyr y Methodistiaid a cherddai bellteroedd maith i bregethu ar y Sul ond byddai'n ol wrth ei waith ben bore Llun! Cerddodd ddwywaith i Lundain ac yn ol! Claddwyd Betsi yn Llundain.

D Mae cofeb Thomas Charles ar lawnt Capel Tegid. Cychwynnodd ysgolion Sul, dosbarthodd Feiblau rhad ac roedd yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor wedi i Mari Jones gerdded 25milltir o Lanfihangel y Pennant i'r Bala i brynu Beibl. Aeth Betsi i ysgol gyda mab Thomas Charles.



E Gwesty'r Llew Gwyn: Lle bu Betsi ifanc yn dawnsio pan welwyd hi gan Thomas Charles a'i hanfon adre! Cafodd y drefn gan ei thad ond dywedodd bod ei thraed yn mynnu dawnsio pan glywai sain y delyn!

F Bwyty Plas-yn-Dre: Wedi marw ei mam methai Betsi gytuno a'i chwaer hynaf oedd wedi cymryd gofal y teulu. Yn naw oed cafodd fynd i weini i Blas-yn-dre at deulu Simon Lloyd. Dysgodd Mrs Lloyd hi i goginio, gwnio, gofal ty a siarad Saesneg. Bu hyn o fantais fawr iddi'n ddiweddarach wrth chwilio am waith yn Lloegr. Pan yn 14 oed dihangodd Betsi o Blas-yn-dre trwy ffenest a cherdded neu gael reid mewn troliau i dy ei modryb yng Nghaer. Er i honno roi arian iddi dalu am docyn adre defnyddiodd Betsi'r arian i deithio i Lerpwl lle cafodd waith a dechrau ei hanturiaethau.



Atgynhyrchwyd gwybodaeth am Betsi Cadwaladr trwy ganiatad caredig Dorothy Hamilton a chyfnodolyn "Walking Wales."